EARTH FALL

THE FACTORY

Pecyn Astudio

'The Factory' - Hydref 2010/Gwanwyn 2011

Pecyn Astdio

Croeso i Becyn Astudio Earthfall.

Cafodd y pecyn astudio hwn ei gynllunio ar gyfer myfyrwyr ac athrawon fel ei gilydd, er mwyn rhoi cipolwg ar y themâu a'r dyfeisiau coreograffig a ddefnyddiwyd i greu cynhyrchiad Earthfall, **'The Factory'.** Mae'r cynhyrchiad hwnnw yn archwilio'r cynnwrf a'r egni emosiynol a sbardunwyd gan y creadigrwydd a'r newidiadau diwylliannol oedd yn nodweddiadol o'r cyfnod tua diwedd y 50au a dechrau'r 60au; mae'r sioe yn **trwytho'r** gwyliwr ym myd **Andy Warhol** a'i Silver Factory enwog.

Cynnwys

Tudalen 3	**Cyflwyniad**
	Earthfall
	The Factory
Tudalen 4-5	**Y Cwmni Cyfredol**
Tudalen 6-8	**Dyfeisiau Coreograffig**
	Amphetamine
	Couch
	My Space
	Sleep
	Double Andy
Tudalen 9	**Testun Perfformio**
Tudalen 10 - 11	**Ymchwil Naratif**
Tudalen 12	**Tasg Ymchwil**
Tudalen 13	**Manylion Cyswllt**

CYFLWYNIAD

Earthfall

Ffurfiwyd Earthfall ym 1989 gan Jessica Cohen a Jim Ennis gyda pholisi o uno coreograffi radical â cherddoriaeth fyw a delweddau grymus. Buan yr enillodd y cwmni enw da fel enghraifft loyw o theatr ddawns arloesol. Mae gwaith Earthfall, sy'n seiliedig ar bynciau penodol, yn ymwneud â chwilio am onestrwydd personol, angerdd ac economi mewn perfformiad corfforol er mwyn cynhyrchu gwaith safonol a dwys. Mae Earthfall wedi perfformio ledled y byd mewn nifer o wyliau mawr ac wedi ymddangos ar ddarllediadau teledu a radio niferus. Mae'r cwmni wedi derbyn sawl gwobr am berfformiadau byw a gwaith ffilm, gan gynnwys Gwobr BAFTA Cymru am y Ffilm Fer Orau *(Too Old to Dream)* ac enwebiad am wobr BAFTA Cymru y Ffilm Fer Orau yn 2010 *(Gravitas Postcards).*

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

The Factory

Mae gwaith diweddaraf y cwmni aml-wobrwyol, Earthfall, wedi ei sbarduno gan sîn y celfyddydau tanddaearol yn y cyfnod tua diwedd y 50au/60au yn ninas Efrog Newydd. Mae Earthfall yn cyfuno holl elfennau ei berfformiadau eithriadol ac amlddisgyblaethol â dawns arloesol, delweddau, ffilm a cherddoriaeth fyw er mwyn archwilio eiconau a hunaniaeth. Mae Earthfall yn edrych ar y ffrwydrad o brotest, creadigrwydd a hedoniaeth oedd yn nodweddiadol o'r 60au fel degawd ac a adlewyrchwyd yn benodol yng ngofod ffatri Warhol ar East 47th Street.



'The Factory' - Hydref 2010/Gwanwyn 2011

"Mae gan Earthfall enw da am waith hudolus a beiddgar, ac mae'r darn hwn ... yn daith afreolus"

The Guardian

EARTH FALL

Y Cwmni Cyfredol

Hyfforddwyd **Rosalind Brooks** yn Warrington ac yna yn Ysgol Dawns Gyfoes Llundain. Aeth yn ei blaen i weithio gydag artistiaid sy'n gynnwys Sean Tuan John, Marega Palser, Mr a Mrs Clark, Citrus Arts, Dawns Annibynnol Cymru a Chloe Loftus. Yn 2005 derbyniodd hyfforddiant mewn gwaith polyn-ac-erial Tsieineaidd a helpodd i ddatblygu 'The Wardrobe Diaries' ar ran Citrus Arts. The Factory yw trydydd cynhyrchiad Rosalind gydag Earthfall – roedd yn gyfrifol am gyd-greu Gravitas a Gig, yn ogystal â pherfformio yn y sioeau hynny.

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Sebastian Languenuer oedd y perfformiwr gwrywaidd cyntaf gyda chwmni dawns LJMU, JMUpstart, a graddiodd gydag Anrhydedd mewn Coreograffi a Pherfformiad ym mis Gorffennaf 2009. Yn ddiweddar, perfformiodd Sebastian gyda China Pearl, River Media, Prosiect 'Plunge' Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Cwmni Dawns Movema, Dynion Pro a Dawns Annibynnol Cymru. The Factory yw ei brosiect cyntaf gydag Earthfall.

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Mae **Frank Naughton** wedi bod yn cyfansoddi a pherfformio gydag Earthfall ers 2003 ac wedi teithio ledled y DU ac Ewrop gan greu traciau sain byw ar gyfer allweddellau, llais a gitâr. Mae ei fandiau yn cynnwys Nemesis, Rocketgoldstar a Thighpaulsandra. Cymrodd ran mewn dwy 'John Peel Session' a chwarae'r 'gig tawel' cyntaf yn y byd, ynghyd â chyfrannu at y sengl dwbl A hiraf yn y byd (12 awr). Mae e hefyd yn gyfrifol am ei stiwdio recordio ei hun ac wedi gweithio fel cynhyrchydd gyda nifer o artistiaid adnabyddus ac addawol.

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Mae **Siôn Orgon** yn parhau i berfformio gyda'i fand, Rocketgoldstar, ar y cyd â chyfansoddi a pherfformio gydag Earthfall. Mae'n gerddor sesiwn gyda nifer o fandiau, gan gynnwys chwaraewr allweddellau y Cardiacs, William D Drake, a band Geraint Jarman. Ar hyn o bryd, mae'n gweithio ar albwm stiwdio gyda Tim Lewis o Spiritualised (aka Thighpaulsandra, Coil a Julian Cope) ac Alessandro Cortini, sy'n chwarae gyda Muse. Pan nad yw e'n chwarae mae'n gweithio yn y stiwdio ac yn gwneud gwaith 'mastro' i gwmnïau amrywiol. Mae e ar fin cwblhau ei 3^{ydd} albwm unigol hefyd, The Fountain of Foof. The Factory yw trydydd prosiect Siôn gydag Earthfall.

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Y Cwmni Cyfredol

Beth Powlesland Ers hyfforddi yn y Gweithdy Dawns ym Moseley a graddio mewn Dawns a Chyfryngau Digidol o Brifysgol Bath Spa, mae Beth wedi cydweithio a pherfformio gydag Earthfall ar dri chynhyrchiad diwethaf y cwmni. Mae hi hefyd yn gweithio gyda phobl ddylanwadol eraill ym myd Dawns a Ffilm, ac mae hi wrthi'n datblygu ei gwaith ei hun.

Lluniau: Hugo Glendinning 2010

Ers cwblhau ei radd BA (Anrh) yn Ysgol Dawns Gyfoes Llundain, mae **Moreno Solinas** wedi gweithio fel prentis gyda Chwmni Dawns Bonachela ac yn broffesiynol gyda Theatr Gorfforol DV8 a Stan Won't Dance. Prosiect coreograffig diweddaraf Moreno yw CITY, a grëwyd gyda'r grŵp cydweithredol BLOOM! ac a gyd-gynhyrchwyd gan Jardin d'Europe. The Factory yw cynhyrchiad cyntaf Moreno gydag Earthfall.

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Ymunodd **Lara Ward** â thîm Earthfall yn 2008. Fe'i ganwyd yn Aberystwyth ac enillodd radd BA (Anrh) mewn Dawns o Brifysgol Caer. Mae hi wedi perfformio gyda Theatr Iolo, Mr a Mrs Clark, Doug Comley, Human Beast a Solerference, Ensemble Cymru, Pickled Herring Theatre a Base Dance. Mae ei chredydau ffilm yn cynnwys 'Y Mapiwr' (Endaf Emlyn), 'Gravitas Postcards' (Earthfall/Chris Forster) a 'The Last Gig' (Earthfall/Mike Barnes)

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©

Tîm Artistig - Cyfarwyddwyr Artistig: Jessica Cohen a Jim Ennis | Cerddoriaeth gan: Frank Naughton a Siôn Orgon | Cynlluniwyd gan: Mike Brookes | Sain gan: Felix Otaola | Ffilm gan: Jim Ennis, McKay Edmund a Mike Blackwood Barnes @ Tallmanfilms | Goleuo wedi'i gyd-gynllunio gan Mike Brooks ac Edmund McKay | Cyfarwyddwr technegol: Edmund McKay | Ffotograffiaeth: Hugo Glendinning

Dyfeisiau Coreograffig

Dyfeisiau coreograffig: dulliau a ddefnyddir i greu, newid a/neu ddatblygu symudiad

‘Amphetamine’

Amffetamin; meddyginiaeth a ragnodwyd yn ystod y 50au a'r 60au, pan nad oedd ei natur gaethiwus yn hysbys. Dechreuodd grŵp o bobl o'r enw 'The Mole People', oedd yn ffrindiau â Warhol a'i grŵp, ddefnyddio'r cyffur at bwrpasau hamdden. Mae **'Amphetamine'** yn deilio o hanesion y Mole People am fod yn gaeth i'r cyffur ac ar eu nodweddion corfforol nhw.

Mae **'Amphetamine'** yn symudiad estynedig wedi'i syncroneiddio ac yn cynnwys symudiadau cyflym, idiosyncratig a byrbwyll. Cafodd y deunydd ei greu gan y dawnswyr trwy waith byrfyfyr wedi'i ysbrydoli gan y thema wreiddiol, ac yna'i fireinio gan y cyfarwyddwyr artistig. Cafodd y symudiad ei addasu â thriniaethau coreograffig er mwyn galluogi i'r ddawns fod yn symudol, i glystyru neu i ledaenu'r perfformwyr o amgylch y gofod, ac i alluogi'r symudiad i gael ei ailadrodd. Datblygwyd adrannau ac fe gafodd symudiadau eu diffinio fel symudiadau unigol er mwyn creu strwythur terfynol.

‘Couch’

Roedd soffa Warhol yn un o brif nodweddion gofod y Silver Factory; yn ogystal â bod yn ganolbwynt i'r ystafell, hwn oedd y lle mwyaf cyffyrddus i'r 'teulu' ymgynnull.

'Couch' Mae'r soffa'n cynnwys y grŵp fel teulu, ac mae delweddau o'r grŵp sy'n atgoffa rhywun o bortreadau teuluol. O'r man cychwyn hwn, datblyga'r grŵp. Mae 'groove' y symudiad hwn yn deillio o ffordd boblogaidd o symud yn y 60au o'r enw 'frugging', ac fe gafodd ei ymgorffori yn y coreograffi er mwyn sicrhau teimlad o ddilysrwydd diwylliannol. Mae strwythur y coreograffi yn datblygu o araf i gyflym iawn ac o symudiadau bychain i rai estynedig sy'n deillio o symbyliad mewnol. Mae'r symudiad yn datblygu o lonyddwch i fywiogrwydd ac yn ôl i lonyddwch, a'r symudiadau'n mynd yn ôl ac ymlaen i'r soffa.

EARTH FALL

Dyfeisiau Coreograffig

‘My Space’

Mae 'My Space' yn ddarn ystumiol pwyllog ac araf. Mae'r symudiad yn hunangynhaliol ac mae pob person yn bodoli yn ei fyd bach ei hun, er bod y ddawns wedi'i syncroneiddio'n ofalus. O safleoedd yn gorwedd, yn eistedd neu'n sefyll, creodd pob perfformiwr gyfres o symudiadau cysylltiedig ystumiol/naturiolaidd nad ydyn nhw'n symud o gwmpas y gofod. Ar ôl i'r symudiadau hyn gael eu pennu, cawsant eu mireinio a'i dysgu'n drylwyr i weddill y grŵp. Cafodd y strwythur ei drin wedyn mewn tair rhan.

Adran 1: Mae'r perfformwyr yn cyflawni eu hystumiau gwreiddiol yn ôl eu hamseru a'u trefn eu hunain.

Adran 2: Mae'r perfformwyr yn dod at ei gilydd, yn cyfuno eu symudiadau, ond yn canolbwyntio o hyd ar y mŵd penodol yn eu bydoedd eu hunain.

Adran 3: Mae'r perfformwyr yn cyflawni eu symudiadau cyfun wedi'u clystyru mewn gwahanol rannau o'r ystafell. Y tro hwn maent yn ymwneud â'i gilydd trwy agosatrwydd corfforol yn unig.

‘Sleep’

Wedi'i ysbrydoli gan ffilm Andy Warhol, "Sleep", cafodd y symudiad hwn ei ddatblygu wrth i dri pherfformiwr ddatblygu cyfres o symudiadau yn seiliedig ar fyrfyfyrio corfforol, a symudiadau isel (aros yn agos at y llawr, e.e. trwy eistedd neu orwedd), gydag eiliadau achlysurol o orffwys yn atalnodi llif y symudiad.

EARTH FALL

Dyfeisiau Coreograffig

'Double Andy'

Gyda chymorth delwedd o ddau 'Andy Warhol' yn eistedd ochr yn ochr â'i gilydd, cafodd yr adran hon ei chreu trwy astudio ffotograffau, ffilm a disgrifiadau o Warhol, a thrwy geisio mabwysiadu ei nodweddion corfforol. Defnyddio strwythurau coreograffig syml i gysylltu'r ystumiau â'i gilydd oedd y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r deunydd hwn. Cafodd y symudiad ei syncroneiddio'n ofalus a'i gyfuno â symudiad ehangach fyddai'n lwpio ac yn cyflymu wrth iddo gael ei ailadrodd. Roedd y dawnswyr ar eu heistedd ar gyfer rhan fwyaf yr adran hon, ac fe'i perfformiwyd yng nghanol y llwyfan gyda thair cadair - un yr un i'r ddau Andy ac un ar gyfer cerddor. Cafodd dyfyniad geiriol gan Warhol ei ychwanegu at yr olygfa - a'i ymgorffori yn y coreograffi.

Er i ni ddefnyddio dau Warhol ar gyfer yr olygfa hon, gallai'r dilyniant weithio'n hynod lwyddiannus gydag unrhyw nifer o berfformwyr.

Ymchwil Naratif

Ar y ddwy dudalen nesaf, ceir disgrifiadau byrion o rai o'r cymeriadau oedd yn gysylltiedig â Silver Factory Andy Warhol. Mae'r wybodaeth hon yn cyflwyno peth o'r ymchwil a wnaed ar gyfer **'The Factory'** - gwybodaeth oedd yn un o seiliau'r broses greadigol. Roedd y wybodaeth yn gymorth i'r perfformwyr wrth iddyn nhw ddatblygu elfennau'r cymeriadau a phoblogi sioe Earthfall. Felly, wrth berfformio, mae Earthfall yn cyflwyno'r dawnswyr eu hunain yn ogystal a'r personâu a'r personoliaethau amgen a ddatblygwyd ganddynt.

Andrew Warhola (6 Awst, 1928 - 22 Chwefror, 1987),
Roedd yn fwy enwog fel **Andy Warhol,** ac yn beintiwr, argraffydd a gwneuthurwr ffilm Americanaidd; ffigwr blaenllaw yn y mudiad celfyddyd weledol sy'n adnabyddus fel 'pop art'. Ar ôl gyrfa lwyddiannus fel darlunydd masnachol, daeth Warhol i enwogrwydd byd-eang am ei waith fel peintiwr, gwneuthurwr ffilmiau avant-garde, cynhyrchydd recordiau, awdur, ac aelod o gylchoedd cymdeithasol amrywiol iawn a oedd yn cynnwys pobl fohemaidd y stryd, deallusion nodedig, sêr Hollywood a noddwyr cefnog.

Edie Sedgwick (20 Ebrill, 1943 - 16 Tachwedd, 1971)
Roedd Edie yn actores Americanaidd, 'socialite', model, ac aeres. Mae hi fwyaf adnabyddus am fod yn un o Superstars Andy Warhol. Cyfeiriwyd at Sedgwick fel "Merch y Flwyddyn" yn 1965 ar ôl iddi chwarae'r prif rannau yn nifer o ffilmiau byrion Andy Warhol yn y 1960au. Ar ôl cael ei henwi'n "It Girl", cafodd ei henwi hefyd yn "Youthquaker" gan gylchgrawn Vogue.

Freddie Herko (23 Chwefror, 1936 - 27 Hydref, 1964)
Astudiodd Herko'r piano yn Ysgol Juilliard a bale clasurol gyda Valentina Pereyaslavec yn Ysgol Theatr Bale America. Cafodd wersi dawns ychwanegol gyda Merce Cunningham a James Waring. Tua diwedd y 1950au, roedd yn aelod rheolaidd o gwmni dawns James Waring a dawnsiodd hefyd gyda Katherine Litz ac Aileen Passloff. Yr oedd yn aelod o'r Judson Dance Theater. Daeth Herko i sylw Andy Warhol pan oedd yr artist yn mynychu cyngherddau dawns arbrofol yn Eglwys Judson yn ystod y chwedegau cynnar.

Billy Name, (ganwyd 22 Chwefror, 1940)
Ffotograffydd Americanaidd, gwneuthurwr ffilmiau a dylunydd goleuo. Ef oedd rheolwr y Warhol Factory, o 1964-1970. Arweiniodd carwriaeth fer a chyfeillgarwch wedi hynny ag Andy Warhol at gydweithredu o bwys ar weithiau Warhol, gan gynnwys ei ffilmiau, peintiadau a cherfluniau. Ef oedd yr unig berson i dreulio cyfnod yn byw yn y Factory ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am ei lliw arian.

Candy Darling - **James Lawrence Slattery** (24 Tachwedd, 1944 - 21 Mawrth, 1974)
Roedd Candy yn actores Americanaidd, ac yn fwyaf adnabyddus fel un o Superstars Warhol. Yn berson trawsrywiol (benyw-i-ddyn), cymerodd brif rhannau yn ffilmiau Andy Warhol, Flesh (1968) a Women in Revolt (1971), ac roedd yn ysbrydoliaeth i'r grŵp proto-pync, The Velvet Underground.

EARTH FALL

Ymchwil Naratif

Roedd **Nico** (enw bedydd **Christa Päffgen,** 16 Hydref, 1938 - 18 Gorffennaf 1988) yn gantores o'r Almaen, yn gyfansoddwr, model ffasiwn, actores, ac un o'r Warhol Superstars. Mae hi'n adnabyddus am ei gwaith llais ar albwm cyntaf The Velvet Underground, The Velvet Underground and Nico, ac am ei gwaith fel artist unigol o'r 1960au hwyr tan y 1980au cynnar. Derbyniodd hefyd rannau mewn nifer o ffilmiau, gan gynnwys cameo yn ffilm Federico Fellini, La Dolce Vita (1960) a Chelsea Girls (1966) gan Andy Warhol, pan chwaraeodd ran hi ei hun.

Mae **Mary Woronov** (ganwyd 8 Rhagfyr, 1943) yn actores a llenor Americanaidd. Mae'n adnabyddus yn bennaf am ei rolau mewn ffilmiau cwlt a ffilmiau annibynnol. Ymddangosodd Woronov mewn dros 80 o ffilmiau, ac mewn nifer o gyfresi teledu poblogaidd, fel Charlie's Angels a Knight Rider.

Mae **Gerard Joseph Malanga** (ganwyd 20 Mawrth, 1943) yn fardd, ffotograffydd, gwneuthurwr ffilmiau, curadur ac archifydd Americanaidd. Malanga oedd cynorthwy-ydd Warhol o 1963-1970 ac yn ystod y cyfnod hwnnw ymddangosodd yn rhai o ffilmiau'r artist. Bu'n dawnsio gyda'r Exploding Plastic Inevitable, cyflwyniad aml-gyfrwng Warhol o The Velvet Underground. Mae Malanga yn adnabyddus hefyd am ei ffotograffau o enwogion y 60au, gan gynnwys beirdd, sêr roc, ac actorion.

Valerie Jean Solanas (9 Ebrill, 1936 - 25 Ebrill, 1988)
Roedd Valerie yn awdur ffeministaidd radical Americanaidd, ac mae hi fwyaf enwog am geisio llofruddio Andy Warhol yn 1968. Roedd yn awdur y SCUM *Manifesto*, oedd yn dadlau o blaid lladd dynion ('gendercide') a chreu cymdeithas gwbl fenywaidd .

Roedd y **Judson Dance Theater** yn grŵp anffurfiol o ddawnswyr a berfformiai yn Eglwys Goffa Judson, Efrog Newydd rhwng 1962 a 1964. Ystyrir y grŵp o artistiaid a ffurfiodd y Judson Dance Theater yn sylfaenwyr Dawns Ôl-fodern .

Mole People
Grŵp o selogion Silver Factory Warhol ar 47th Street oedd yn cynnwys Freddie Herko, Ondine , Rotten Rita a Billy Name. Fe gawsant y llysenw "mole people" o ganlyniad i'w defnydd dwys o 'speed' a'u harferion tanddaearol - " 'mole' am eu bod nhw'n tyrchu tuag at wallgofrwydd nad oedd neb ond y cylch mewnol yn ymwybodol ohono". Perfformiodd aelodau o'r grŵp hwn sioeau gwyllt (oedd yn cynnwys rŵtin â chyffuriau) mewn partïon ac ar lwyfannau ledled Efrog Newydd - roedd y sioeau yn cymylu'r ffin rhwng bywyd a chelfyddyd.

Tasg: Ar ôl darllen yr wybodaeth flaenorol, cwblhewch eich ymchwil eich hun gan ddefnyddio'r cymeriadau hyn fel man cychwyn. Ymchwiliwch y cyfnod ddaeth â'r cymeriadau hyn at ei gilydd, natur eu perthnasau ac unrhyw ddylanwadau gwleidyddol, diwylliannol neu gymdeithasol a allai fod wedi cyfrannu at ddeinameg y Silver Factory.

Testun Performio

Detholiad o'r **SCUM Manifesto** gan Valerie Solanas

"Gan fod bywyd yn y gymdeithas hon yn ddiflastod llwyr ar y gorau, ac nad oes yna'r un elfen ar gymdeithas sy'n berthnasol mewn unrhyw fodd i fenywod, dim ond un peth y gall menywod cyfrifol, dinasgar, sy'n chwilio am wefr ei wneud - sef dymchwel y llywodraeth, cael gwared ar y system arian, sefydlu proses o awtomeiddio llwyr a dinistrio gwrywdod.
Mae bellach yn dechnegol bosib i atgynhyrchu heb gymorth gwrywod (neu, o ran hynny, fenywod) ac i gynhyrchu menywod yn unig. Mae'n rhaid i ni ddechrau gwneud hynny ar unwaith. Nid yw cadw dynion [mewn cymdeithas] hyd yn oed yn angenrheidiol at bwrpasau (amheus) atgynhyrchu. Mae'r gwryw yn ddamwain fiolegol: mae'r genyn Y (gwrywaidd) yn enyn X (benywaidd) anghyflawn, hynny yw, nid oes ganddo set gyflawn o gromosomau. Mewn geiriau eraill, mae'r gwryw yn fenyw anghyflawn, yn erthyliad ar ddeudroed, wedi'i erthylu yn ystod y broses enynnol. Mae bod yn wryw yn gyfystyr â bod yn ddiffygiol, yn emosiynol-gyfyngedig; mae gwrywdod yn glefyd sy'n seiliedig ar ddiffyg ac mae dynion yn emosiynol-gloff".

Tasg: Ystyriwch y testun uchod. Beth yw eich barn a'ch teimladau ynglŷn â'r farn hon? Ystyriwch gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol y maniffesto. Beth allai fod wedi sbarduno safbwynt mor eithafol?

Trafodwch a rhannwch eich syniadau mewn grŵp.

Tasg Ymchwil

Ar ôl ymchwilio a dysgu am y Silver Factory, archwiliwch eich syniadau eich hun am y 60au a chyfnod Andy Warhol drwy ateb y cwestiwn canlynol:

A gafodd y 60au fwy o effaith ar gymdeithas nag unrhyw ddegawd arall yn yr 20fed ganrif? (Gallwch barhau eich ateb ar ddalen ychwanegol os bydd angen.)

Manylion Cyswllt

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â ni:

Earthfall
Chapter
Heol y Farchnad
Caerdydd
CF5 1QE

02920 221 314
www.earthfall.org.uk

Peidiwch ag anghofio edrych ar we-fan swyddogol 'The Factory' ar:
www.east47st.com

Gallwch ein dilyn ni hefyd ar:
Facebook a Twitter

Cofiwch y gallwch ddweud eich dweud ar dudalen
Fforwm Estyn Allan Earthfall ar Facebook:
http://on.fb.me/fboutreach

Company Limited By Guarantee: 2919355
Registered Charity Number: 1048233

Lluniau: Hugo Glendinning 2010 ©